



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Leighton Andrews AC
Y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau
Tŷ Hywel
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

19/06/2013

Annwyl Weinidog

Ymateb i safonau drafft arfaethedig Llywodraeth Cymru a'r ddogfen ymgynghorol gysylltiedig

Ynghlwm wrth y llythyr hwn atodir fy ymateb i safonau drafft arfaethedig Llywodraeth Cymru a'r ddogfen ymgynghorol gysylltiedig.

Derbyniodd fy swyddogion y gwaith papur, ar ffurf lled orffenedig, ar y 6ed o Fehefin a chafwyd 10 diwrnod gwaith i baratoi ymateb i'r cynnwys a gafwyd.

Am nifer o resymau credaf y dylid ail ystyried agweddau ar y safonau drafft.

Yr hyn sy'n peri pryder i mi gyda rhai safonau yw fod y dewis iaith yn cael ei dynnu oddi wrth siaradwyr Cymraeg mewn modd annheg. Yn benodol nid yw'n ymddangos fod sail dystiolaeth dros amodi na defnyddio'r lefelau a gynigiwyd ac yn fwy cyffredinol nid yw'r fformiwlâu yr arfaethir eu defnyddio'n cyplysu ag egwyddorion sylfaenol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn fwy sylfaenol nid oes unrhyw disgwyliad ar sefydliadau i wella eu darpariaeth lle rhagdybir nad oes modd cynnig y gwasanaeth hwnnw ar hyn o bryd. Mae nifer o'r safonau'n fwy iselgeisiol na'r ymrwymadau sydd yng nghynlluniau iaith gwanaf y dosbarth o sefydliadau sy'n wrthrych y safonau.

Mae rhai diffiniadau cyfreithiol yn ymddangos yn aneglur a chredaf y dylai'r sefydliadau a fydd yn ddarostyngedig i'r safonau hyn gael gwybod beth yw diffiniad y Mesur o 'berson'. Yn y cyswllt hwn mae sawl cyfeiriad yn y safonau at unigolyn(ion) preifat, cyhoedd, pobl

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

sy'n byw mewn cymunedau ledled Cymru ac ati. Mae rhain i gyd yn dermau rhy gul na chawsant eu hesbonio a gallasai rhai ystyried fod eich dogfen ymgynghori'n gamarweiniol o'r herwydd.

Sylweddolaf y gall safon gwmpasu gofynion ynghylch y modd y dylai person weithredu yn ogystal ag ymdrin â'r nod polisi yr arfaethir ei gyflawni. Byddwn wedi disgwyl mai'r amcan polisi fyddai priod swyddogaeth y safonau fel y'i diffiniwyd yn y Mesur. Mae'r safonau gweithredu wedi gwyrddroi'r sefyllfa drwy bennu safon i gynnal neu sefydlu pwyllgor a gosod yr amcanion polisi fel is bwyntiau heb fod i'r amcanion polisi hynny statws. Mae gofyn dyrchafu statws nifer o'r cynigion yn y safonau gweithredu i fod yn safonau.

Mae'r fframwaith yn rhagnodol ac yn cynnwys amrediad o ddulliau amrywio: fformiwlâu a lefelau yn ogystal â meini prawf sy'n cyfyngu ar gwmpas safonau a diffiniadau o'r dosbarth safonau sydd hefyd yn cyfyngu ar ystyr gwreiddiol y Mesur. Gall hyn arwain at wasanaethau dwy haen, nid arwain at gysondeb. Mae mecanweithiau amrywio safonau yn y Mesur eisoes – hysbysiadau cydymffurfio ac ymchwiliadau safonau sydd, ill dau, yn ddulliau yr arfaethwyd i mi eu defnyddio yn fy rôl fel Comisiynydd y Gymraeg pan basiwyd y Mesur.

Wrth gloi nodaf na ddarparwyd safonau cadw cofnodion i mi gynnig arsylwadau arnynt. Rwy'n gwbl barod i roi ymateb pellach ar y safonau cadw cofnodion pan fyddant yn barod i'w rhannu. Fel nodwyd gennyf eisoes mae ymateb llawn fy swyddogion ynghlwm. Mae'r ymateb wedi ei seilio ar dystiolaeth ddibynadwy; hyderaf y bydd hyn o gymorth i chi symud ymlaen gyda'r gwaith.

Yr eiddoch yn gywir

Meri Huws

Comisiynydd y Gymraeg